SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

Hawdd i'w Ddarllen

# Faint o arian gafodd ei wario

O fis Ebrill 2023 hyd at mis Mawrth 2024




# Hawdd i'w Ddarllen




Mae hwn yn fersiwn Hawdd i'w Ddarllen o rhywfaint o'r wybodaeth. Efallai na fydd yn cynnwys yr wybodaeth i gyd, ond mae'n dweud wrthych chi am y rhannau pwysig.




Mae'r llawlyfr yma yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Mae rhai pobl dal angen help i'w ddarllen.




Mae rhai geiriau yn **sefyll allan** - lle mae'r ysgrifen yn fwy trwchus ac yn fwy tywyll. Mae'r geiriau yma yn rhai pwysig yn y llawlyfr.




Weithiau, os mae gair sy'n sefyll allan yn anodd i'w ddeall, wnawn ni egluro be' mae'n olygu.




Mae geiriau glas ac sydd wedi eu tanlinellu yn dangos dolenni i wefannau ac at gyfeiriadau e-bost. Gallwch glicio ar y rhain ar gyfrifiadur.

# Yr hyn sydd yn y llyfryn yma


Hanes y llyfryn yma ....................4

Faint o arian ‘da ni wedi’i wario ....................5

Ar beth ‘da ni wedi gwario arian ....................8

Prosiectau ‘da ni wedi gwario arian arnyn nhw .......15

Mwy o wybodaeth ....................17

# Hanes y llyfryn yma

Mae’r llyfryn yma gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a’i dîm.



Andy Dunbobbin ydy Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.



Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn penderfynu faint o arian mae Heddlu Gogledd Cymru angen.




Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhoi arian i’r heddlu i’w wario ar wasanaethau’r heddlu.




Mae’r llyfryn yma yn egluro faint o arian sydd wedi’i wario ar wasanaethau’r heddlu eleni.


# Faint o arian ‘da ni wedi’i wario




Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael arian oddi wrth y **Llywodraeth** a’r **Dreth Gyngor** er mwyn ei wario ar wasanaethau’r heddlu.




Mae **llywodraeth** yn gwneud rheolau a phenderfyniadau pwysig ar ran y wlad. Maen nhw’n rheoli pethau fel y gyfraith a gwasanaethau.




Mae’r Dreth Gyngor yn arian ‘da chi’n ei dalu i’r cyngor lleol. Maen nhw’n defnyddio’r arian ar gyfer gwasanaethau lleol, fel hel sbwriel a thrwsio ffyrdd.




Mae rhywfaint o arian y dreth gyngor yn cael ei ddefnyddio er mwyn talu am wasanaethau’r heddlu.



Eleni, mi wnaethom ni wario llai o arian na gawsom ni i’w wario.




Eleni, ‘roedd gennym ni tua £188 miliwn i’w wario.





Mi wnaethom ni wario £4.59 miliwn yn llai na hyn.



Da ni wedi rhoi’r £4.59 miliwn mewn **cronfa wrth-gefn**.

Mae **cronfa wrth-gefn** yn arian ‘da ni’n ei harbed er mwyn ei wario yn y dyfodol.





Mae’r gyfraith yn dweud bod rhaid i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd arbed arian mewn cronfa wrth-gefn.

Y prif resymau dros wario llai o arian ydy:



- Mi wnaethom ni wario llai o arian ac arbed arian ar wasanaethau penodol.




- Mi gawsom ni fwy o arian nag oeddem ni'n ei ddisgwyl.



- Mi wnaethom ni reoli'r arian gawsom ni yn dda.

# Ar beth 'da ni wedi gwario arian




## Cyflogau gweithwyr


Mae **gweithiwr** yn aelod o staff, fel swyddog heddlu.




Mae gweithwyr yn ennill arian am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Yr enw am yr arian maen nhw'n ennill ydy **cyflog**.




Eleni, mi wnaethom ni wario tua £164 miliwn ar gyflogau gweithwyr.




Mae hyn yn llai na beth wnaethom ni gynllunio ei wario.




Mi wnaethom ni wario llai ar gyflogau gweithwyr oherwydd bod mwy o swyddogion heddlu wedi gadael eu swyddi, o'i gymharu â llynedd.

Mae hyn yn golygu ein bod wedi cyflogi swyddogion heddlu newydd, ac maen nhw'n cael llai o gyflog na'r swyddogion wnaeth adael.


## Costau gweithwyr eraill




Mae unrhyw arian 'da ni'n ei wario ar weithwyr sydd ddim yn gyflog yn cael ei alw'n **gostau gweithwyr eraill**.




Eleni, mi wnaethom ni wario tua £8.4 miliwn ar gostau gweithwyr eraill.




Mae hyn yn fwy na beth wnaethom ni gynllunio ei wario.




Mi wnaethom ni wario mwy oherwydd ein bod wedi cynilo eleni ar gyfer **hawliadau yswiriant** yn y dyfodol.

**Hawliad yswiriant** ydy pan 'da chi'n gofyn wrth gwmni neu sefydliad i'ch helpu chi i dalu costau rhywbeth drwg sydd wedi digwydd.


## Costau sydd ddim yn weithwyr




Mae'r arian 'da ni'n ei wario ar unrhyw beth heblaw ein gweithwyr, fel lifrai, ceir ac adeiladau, yn cael ei alw'n **gostau sydd ddim yn weithwyr**.




Eleni, mi wnaethom ni wario £44 miliwn ar gostau sydd ddim yn weithwyr.





Mae hyn yn llai na beth wnaethom ni gynllunio ei wario.

Mi wnaethom ni wario llai o arian ar gostau sydd ddim yn weithwyr, oherwydd ein bod wedi gwario llai o arian ar:




- Biliau nwy a thrydan yn ein adeiladau.




- Y cerbydau ‘da ni’n eu defnyddio.


# Gweithio efo eraill



Eleni, mi wnaethom ni weithio efo sefydliadau eraill, fel y cynghorau lleol, y gwasanaeth iechyd a grwpiau eraill sy'n helpu pobl.




Eleni, mi wnaethom ni wario tua £10.1 miliwn ar weithio efo eraill.




Hyn ydy'r swm wnaethom ni gynllunio ei wario.

# Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd




Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd swyddfa a staff i'w helpu efo'i waith.



Mae'n costio arian i dalu'r staff sy'n ei helpu efo'i waith.





Eleni, mi wnaethom ni wario tua £1.2 miliwn ar Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.




Hyn ydy'r swm wnaethom ni gynllunio ei wario.


# Gwariant cyfalaf




**Gwariant cyfalaf** ydy'r arian 'da ni'n ei wario ar unrhyw beth wnawn ni ddefnyddio am fwy na blwyddyn, fel adeiliadau newydd, ceir a chyfrifiaduron.




Eleni, mi wnaethom ni wario tua £4.9 miliwn ar wariant cyfalaf.




Mae hyn yn llai na beth wnaethom ni gynllunio ei wario.

# Prosiectau ‘da ni wedi gwario arian arnyn nhw





Mae **prosiect** yn dasg neu'n ddarn o waith sydd efo nod.

Eleni, mi wnaethom ni wario arian ar y prosiectau yma:



- Gwella'r **Ganolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol**

  Mae'r **Ganolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol** yn le i bobl fynd pan maen nhw wedi cael eu gorfodi i wneud rhywbeth rhywiol pan ‘doedden nhw ddim eisiau gwneud.




- Gwella gorsaf yr heddlu yng Nghaernarfon.

Eleni, mi wnaethom ni hefyd wario arian ar:




- Adeiladu gorsaf heddlu newydd yng Nghaergybi - mi wnaiff yr adeiladu gychwyn yn hwyrach yn 2024.




- Prosiectau technoleg ac offer, fel rhoi gliniaduron a chamerâu corff i bob swyddog yr heddlu.

# Mwy o wybodaeth




Gallwch edrych ar ein gwefan ni yma:
[www.northwales-pcc.gov.uk](http://www.northwales-pcc.gov.uk)


Os yda chi angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch efo ni drwy:




- Post:
  Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
  Pencadlys yr Heddlu
  Glan y Don
  Bae Colwyn
  Conwy LL29 8AW



- Ffôn: 01492 805486




- E-bost: [OPCC@northwales.police.uk](mailto:OPCC@northwales.police.uk)

Cafodd y llyfryn Hawdd i'w Ddarllen ei greu gan [easy-read-online.co.uk](http://easy-read-online.co.uk)
Mae'r llyfryn yn cynnwys lluniau wedi'u trwyddedu gan Photosymbols & Shutterstock.